

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Iau, 26 Ionawr 2012

Amser:
09:15

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Claire Morris
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8148 / 029 2089 8032
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Sesiwn Dystiolaeth (09:15 – 10:45) (Tudalennau 1 – 5)

Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau

Chris Tweedale, Cyfarwyddwr Grwp – Ysgolion a Phobl Ifanc
Jo-Anne Daniels, Dirprwy Gyfarwyddwr – Is-adran Cwricwlwm
John Pugsley, Pennaeth y Gangen Llwybrau Dysgu 14 – 19

Egwyl (10:45 – 11:00)

3. Dechrau'n Deg (11:00 – 12:00) (Tudalennau 6 – 13)

Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

Martin Swain, Pennaeth Is-adran y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc
Glyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Ystadegol

4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn ac ar gyfer y cyfarfod ar 1 Chwefror 2012: (12:00)

5. Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru (12:00 – 12:30)

Ystyried yr adroddiad drafft

6. Yr ymchwiliad i fabwysiadau – Penodi cynhghorydd arbenigol (12:30 – 12:45) (Tudalennau 14 – 20)

7. Papurau i'w nodi

7. (Tudalennau 21 – 22)

Gwybodaeth gan Addysg Uwch Cymru (Tudalennau 23 – 27)

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc CYP(4)03-12

Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'r broses o weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Tystiolaeth **gan Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Cyflwyniad

Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn sicrhau bod dysgwyr, waeth ble maent yn astudio neu beth yw eu dewis o iaith (h.y. Cymraeg neu Saesneg), yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys ac i wasanaethau cymorth dysgu a fydd yn eu helpu i oresgyn unrhyw rwystrau i'w dysgu a chyflawni eu potensial.

Mae'r arian grant 14-19 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o weithredu'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn llwyddiannus ac wrth gynorthwyo awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau addysg bellach i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Mesur. Er hynny, mae'n bwysig gosod yr arian grant galluogol hwn yng nghyd-destun y cyllid cyffredinol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi addysg ieuencid 14-19 oed, drwy gyfrwng y Grant Cynnal Refeniw (GCR) i ieuencid 14-16 oed a'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Er ein bod yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i weithredu'r Mesur a'r cyfle i ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor, rydym yn rhannu'r pryderon a fynegir gan nifer o gyfranwyr eraill am ei amseriad. O ystyried na fydd y Mesur yn cael ei weithredu'n llawn tan fis Medi eleni, rydym ni hefyd yn credu ei bod yn rhy gynnar i asesu ei effaith yn llawn a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud ar hyn o bryd.

Gweithredu

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod gofynion cwricwlwm lleol y Mesur wedi cael eu gweithredu dros gyfnod o bedair blynedd, gyda'r flwyddyn gyntaf, 2009-10, yn cael ei gweithredu ar sail anstatudol. Mae'r dystiolaeth sydd eisoes ar gael yn dynodi bod y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Mesur wedi gwneud gwahaniaeth mawr i amrywiaeth y pynciau a gynigir i bobl ifanc ac i'r cymorth maent yn ei dderbyn er mwyn eu helpu i oresgyn unrhyw rwystrau i'w dysgu a chyflawni eu potensial.

Mae lefelau presenoldeb wedi gwella ac mae nifer yr eithriadau wedi gostwng; mae canlyniadau addysgol wedi gwella ac mae nifer y bobl ifanc sy'n datblygu i fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant wedi gostwng. Mae mwy o bobl ifanc yn dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant y tu hwnt i'r oedran dysgu gorfodol. Ceir mwy o gydweithio hefyd rhwng ysgolion a cholegau, gyda thwf cyfatebol yn nifer y cyrsiau sy'n cael eu cynnal ar y cyd.

Rydym yn falch bod yr ymrwymiad i Lwybrau Dysgu 14-19 a ddangoswyd gan randdeiliaid wedi sicrhau nad yw nifer o'r pryderon a gafodd eu mynegi wrth basio'r Mesur wedi dod i'r amlwg. Hefyd, rydym yn falch bod gofynion y Mesur yn cael eu bodloni ledled Cymru, yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16, boed drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ddwyieithog neu ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae'r arian grant y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 wedi bod o gymorth gyda hyn ac, er mwyn cynnig sefydlogrwydd, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cadarnhau parhad yr arian grant ar gyfer blynyddoedd ariannol 2012-13 a 2013-14.

1. Pa effaith mae'r broses o weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi'i chael hyd yn hyn ar bobl ifanc 14-19 oed?

Mae'r Mesur wedi cyflwyno dewis ehangach i ddysgwyr yn CA4 ac ôl-16, mewn cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Ym mis Medi 2011, roedd pob ysgol a choleg addysg bellach yn bodloni gofynion sylfaenol lleol y cwricwlwm ar gyfer 28 dewis o gyrsiau, gan gynnwys pob darparwr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae mwy na 97% o'r holl ysgolion yng Nghymru eisoes yn bodloni gofynion llawn mis Medi 2012 ar gyfer isafswm o 30 dewis o gyrsiau, gan gynnwys isafswm o bum opsiwn galwedigaethol. Mae rhwydweithiau wedi rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn bodloni'r gofynion llawn ar gyfer mis Medi 2012. O ran y ddarpariaeth ôl-16, mae pob ysgol a choleg addysg bellach eisoes yn bodloni'r gofynion llawn o 30 dewis o gyrsiau, gan gynnwys isafswm o bum opsiwn galwedigaethol.

Cynigiwyd cyfartaledd o 35 cwrs yng Nghyfnod Allweddol 4 ym mis Medi 2011. Cynhaliwyd 32 o gyrsiau ar gyfartaledd yn 2011, sy'n dangos yn glir bod y cynnig yn ddiwyll a bod y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddilyn ystod eang o gyrsiau sy'n ddi-ddorol ac yn heriol iddynt. Cynigiwyd cyfartaledd o 24 ym mis Medi 2008 ond roedd 40 o ysgolion yn cynnig 20 cwrs neu lai.

Y cyfartaledd a gynigiwyd yn 2011 i fyfyrwyr ôl 16 oedd 40.

Mae'r polisi o ddewis ehangach wedi cyfrannu at welliannau yng nghyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad y dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4, fel y dangosir yn Adroddiad Blynyddol Estyn 2009-10.

Er hynny, mae ehangu'r dewis hefyd wedi gosod ffocws ar y pynciau sy'n cael eu cynnig a pha un ai ydynt yn rhai sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr ac addysg uwch yn galw amdanynt. Bydd yr adolygiad o'r Cymwysterau 14-19, a gadeirir gan Huw Evans, yn helpu i sicrhau bod y cymwysterau sy'n cael eu cynnig yn rhai sy'n cael eu hystyried fel rhai perthnasol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr a phrifysgolion.

2. A yw disgyblion Cymraeg yn cael dewis sy'n cynnig yr un dyfnder ac amrywiaeth?

Bu cynnydd yn nifer y cyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn rhai academaidd a galwedigaethol, gyda'r holl ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael cynnig yr isafswm o gyrsiau sy'n ofynnol o dan y Mesur. Er bod nifer y cyrsiau galwedigaethol Cymraeg sydd ar gael ychydig yn is na'r rhai sydd ar gael yn Saesneg, rydym ni, drwy glustnodi elfen o'r arian grant 14-19, wedi sicrhau bod ehangu sylweddol wedi digwydd o ran nifer y cyrsiau galwedigaethol a gynigir; er 2008, mae rhyw £4.2m wedi cael ei glustnodi ar gyfer y diben hwn.

Mae sefydlu tri fforwm 14-19 rhanbarthol cyfrwng Cymraeg, gyda chymorth arian grant 14-19, wedi chwarae rhan bwysig mewn cydlynu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau cysondeb ieithyddol mewn cyrsiau galwedigaethol ar Lefel 3, ar gyfer dysgwyr ôl-16. Yn 2010-11, cefnogodd y fforymau ddatblygiad 12 cwrs cydweithredol newydd; 10 ar Lefel 3. Yn 2011-12, mae cyfanswm o 20 o gyrsiau cydweithredol ar gael, yn rhai galwedigaethol a chyffredinol, gydag 17 ar Lefel 3; o blith yr 20 cwrs yma, mae 14 yn gyrsiau newydd, gyda 13 o'r rhain ar Lefel 3.

3. Os yw'r Mesur wedi arwain at ddewis ehangach o gyrsiau academaidd a galwedigaethol, a yw hyn wedi cael unrhyw effaith anfwriadol ar bynciau eraill, er enghraifft ieithoedd modern?

Mae'r Mesur yn galw am ddatblygu Cwricwla Lleol sy'n diwallu anghenion, diddordebau a dyheadau'r dysgwyr, yn ogystal â gofynion y farchnad lafur leol.

Drwy gyfrwng dewis ehangach a chydweithrediad, rydym ni wedi gweld nifer o gyrsiau'n cael eu diogelu. Er enghraifft, ym Mro Morgannwg, mae cydweithrediad rhwng dwy ysgol wedi sicrhau ei bod yn bosibl cynnal cwrs Almaeneg TGAU Safon Uwch na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall; a cheir cynlluniau i gynnig Ffrangeg Safon Uwch drwy drefniant tebyg yn 2012. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cydweithio rhwng ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau bod modd cynnal cyrsiau mewn partneriaeth a thrwy hynny ddiogelu pynciau na fyddent ar gael fel arall.

Mewn perthynas ag ieithoedd tramor modern, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CILT Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer ieithoedd, er mwyn hybu dysgu ieithoedd Tramor Modern (ITM) ledled Cymru. Mae wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n datgan sut bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid a CILT er mwyn datblygu a hybu dysgu ieithoedd tramor modern.

Bydd yr Adolygiad o'r Cymwysterau hefyd yn cynnwys asesiad o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r ddarpariaeth ITM.

4. A yw'r broses o weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi cael unrhyw effaith ar nifer y bobl ifanc 16 oed sy'n dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant ar ddiwedd eu haddysg orfodol?

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi derbyn tystiolaeth bod nifer y bobl ifanc sy'n aros mewn addysg ôl-16 wedi cynyddu a bod nifer y bobl ifanc sy'n cael eu categoreiddio fel pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng.

Dengys gwybodaeth gan Gyrfa Cymru bod nifer y bobl ifanc sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant llawn-amser, y tu hwnt i'r oedran dysgu gorfodol, wedi cynyddu fel a ganlyn:

2008 – 79.2%

2009 – 82.2%

2010 – 82.8%

Drwy gynnig i bobl ifanc 16 oed gyrsiau sy'n cael eu hystyried fel rhai perthnasol a diddorol ganddynt, bydd mwy yn dewis dal ati mewn addysg neu hyfforddiant y tu hwnt i'r oedran dysgu gorfodol. Dyna pam fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu yn erbyn codi'r oedran dysgu gorfodol.

5. Pa broblemau ymarferol sy'n cael sylw er mwyn gweithredu'r Mesur?

Mae datblygu partneriaethau lleol effeithiol yn allweddol i sicrhau bod gofynion y Mesur yn cael eu bodloni a bod polisi'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae cydweithio effeithiol a chynllunio da wedi helpu gyda mynd i'r afael â'r materion niferus a godwyd.

Rydym ni'n cydnabod mai proses esblygol yw hon, yn hytrach nag un chwyldroadol, a bod rhaid i'r partneriaethau a'r trefniadau ar gyfer cydweithio gael amser i aeddfedu. Mae cydweithio wedi helpu nid yn unig gyda sicrhau dewis ehangach ond hefyd gyda gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Ceir enghreifftiau da o bartneriaethau a chydweithio effeithiol ar hyd a lled Cymru. Un enghraifft benodol yw Sir Gaerfyrddin, lle mae Coleg Sir Gâr a'r ysgolion uwchradd lleol yn Llanelli wedi sicrhau cydnabyddiaeth genedlaethol yng Ngwobrau Beacon 2010 Cymdeithas y Colegau, am weithio ar y cyd.

Hefyd mae gennym ni enghreifftiau o sut mae darpariaeth gydweithredol wedi arbed cyllid sylweddol i ysgolion. Er enghraifft, mae Partneriaeth Bryn Tawe – Gŵyr yn Abertawe wedi arbed tua £83,000 i bob ysgol drwy ddarparu 20 cwrs ar y cyd. Mae'r arbedion hyn yn ystyried y costau teithio ychwanegol cysylltiedig â'r ddarpariaeth ar y cyd.

Er hynny, rydym yn cydnabod y gall cydweithio o'r fath fod yn anos mewn ardaloedd gwledig a/neu gyda rhai darparwyr cyfrwng Cymraeg, lle mae'r pellter rhwng lleoliadau yn gallu gwneud cydweithio'n anos. Mae amgylchiadau o'r fath yn galw am atebion blaengar. Gellir defnyddio amserlennu cyffredin a chael y dysgwyr i deithio ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod ysgol. Hefyd, mae TGCh a chynadleddau fideo'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan rai partneriaethau er mwyn cyflwyno cyrsiau ar y cyd ac mae hyn yn arbed amser teithio ac adnoddau.

Mae'n bwysig bod pob darparwr yn gweithredu er budd gorau eu dysgwyr, ac nid y sefydliad. Er bod rhai darparwyr yn amharod i gydweithio, mae cynnydd yn cael ei wneud ac rydym ni'n symud i'r cyfeiriad iawn.

Ceir hefyd dystiolaeth anecdotaidd o'r manteision ychwanegol a gynigir i les y dysgwyr wrth astudio mewn sefydliad arall, o ran cael profiad o leoliad arall a chyfarfod cyfoedion newydd. Byddwn yn edrych ar gasglu rhagor o dystiolaeth am hyn yn y dyfodol.

6. A yw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn cael ei weithredu'n gyson ledled pob awdurdod lleol?

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y darparwyr i gyd ym mhob awdurdod lleol yn bodloni gofynion statudol 2011 o dan y Mesur ac rydym yn hyderus y bydd yr holl ysgolion a cholegau addysg bellach yn gallu bodloni gofynion statudol llawn 2012 hefyd.

7. A yw dysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gallu cael budd o ddarpariaethau'r Mesur?

Mae gan bob dysgwr mewn colegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd a gynhelir, gan gynnwys y rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol, yr un hawl i ddewis ehangach. Nid yw ysgolion arbennig yn rhan o gylch gwaith y Mesur mewn perthynas â dewis ehangach. Fodd bynnag, mae gan y dysgwyr sy'n gallu dilyn cyrsiau astudio mewn lleoliadau prif ffrwd ddewis ehangach eisoes drwy gyfrwng trefniadau cofrestru deul. Bydd y dysgwyr hynny y mae eu hamgylchiadau arbennig yn golygu nad ydynt yn gallu dilyn cwrs astudio mewn lleoliad prif ffrwd eisoes yn derbyn addysg unigol wedi'i llunio'n arbennig i ddiwallu eu hanghenion dysgu unigol. Bydd Ysgolion Arbennig yn rhan o gylch gwaith y Mesur mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.

Mae'n rhaid i'r rhai sy'n cynllunio'r cwricwlwm lleol ystyried a chynnwys darpariaeth addas ar gyfer y dysgwyr hynny y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu'n well efallai gan gyrsiau ar lefel is neu uwch. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae hyn yn golygu ystyried anghenion y rhai gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a gwneud yn siŵr bod y dysgwyr nad ydynt yn gallu dilyn cyrsiau Lefel 2 oherwydd eu ADY yn cael cyfleoedd i ddilyn ystod o gyrsiau sy'n galluogi iddynt wneud cynnydd da tuag at gymwysterau Lefel 2.

Yn yr un modd, mewn addysg ôl-16, dylai'r rhai sy'n cynllunio'r cwricwlwm lleol sicrhau bod y dysgwyr nad ydynt yn gallu dilyn cyrsiau Lefel 3 yn cael cyfleoedd i ddilyn dewis o gyrsiau sy'n eu galluogi i wneud cynnydd da ar y lefel briodol i'r dysgwr. Dylid sicrhau bod lefel briodol o gyrsiau is na Lefel 3 ar gael i ddiwallu anghenion y dysgwyr y mae'r rhaglenni hyn yn fwy addas iddynt. Mae'r rhain yn gyfrifoldebau addysgu cyffredinol sydd y tu allan i rychwant y Mesur.

O dan adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("y Ddeddf Dysgu a Sgiliau") mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddiogelu'r ddarpariaeth o gyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n bodloni gofynion disgyblion 16-18 oed ynghyd â chyfleusterau rhesymol ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n bodloni gofynion myfyrwyr 19 oed a hŷn (addysg ôl-16). Wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol mewn gwahanol sectorau cyflogaeth ar gyfer cyflogion.

O dan adrannau 34 a 35 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau gallai Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau ariannol i ddarparwyr addysg neu hyfforddiant ôl-16 a gallent orfodi amodau ynghylch cyllid o'r fath. Mae 'addysg a hyfforddiant ôl-16' yn cynnwys addysg amser llawn ac addysg rhan-amser (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant galwedigaethol. O dan adran 41 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried anghenion personau ag anawsterau dysgu wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag adrannau 31, 32 a 34.

Fel y dynodir uchod, er nad yw gofynion cwricwlwm ehangach y Mesur yn berthnasol i ysgolion arbennig, mae'r elfennau cymorth dysgu yn berthnasol. Mae hyn yn golygu y dylai'r dysgwyr i gyd gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd a fydd yn eu helpu i wneud dewisiadau doeth a realistig, goresgyn rhwystrau dysgu a gwireddu eu potensial unigol. Ceir enghreifftiau o arferion da wrth gyflwyno gwasanaethau cymorth dysgu mewn ysgolion arbennig, gan gynnwys Ysgol Trinity Fields yng Nghaerffili, y tynnwyd sylw ati yn nhystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Pwyllgor.

8. A yw'r cymorth dysgu'n cael ei gyflawni'n effeithiol?

Mae'r cymorth i ddysgwyr yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoel, cefnogaeth bersonol a hyfforddiant dysgu, a chyflwynwyd yr olaf o'r rhain yn uniongyrchol drwy gyfrwng y Llwybrau Dysgu 14-19. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddyd yn datgan ein disgwyliadau mewn perthynas ag awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau. Nid oes unrhyw fodel cyflwyno wedi'i ragnodi ar gyfer gwasanaethau cymorth dysgu ac mae ystod o wahanol fodelau cyflwyno wedi cael eu datblygu ar hyd a lled Cymru. Y peth pwysig yw bod y cymorth dysgu a ddarperir yn gysylltiedig ag anghenion y dysgwyr. Bydd hyn yn golygu na fydd rhai dysgwyr angen fawr ddim cefnogaeth i gyflawni eu potensial ond efallai bydd eraill angen cefnogaeth un i un fwy dwys dros gyfnod o amser.

Er bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoel, a chefnogaeth bersonol, yn wasanaethau sydd wedi'u sefydlu ers amser maith, mae swyddogaeth yr hyfforddwr dysgu yn un gymharol newydd ac mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi genedlaethol ar Lefel 4.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai'r gymhareb addas ar gyfer hyfforddwr dysgu yw 1:80 ac rydym yn falch bod pob ysgol a choleg addysg bellach wedi dynodi y byddant wedi sicrhau'r gymhareb hon erbyn mis Mawrth 2012.

Hefyd, mae'r cytundebau dysgu yn y gwaith newydd, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2011, yn sicrhau bod cymorth dysgu, gan gynnwys hyfforddiant dysgu, ar gael i bobl ifanc sy'n ymgymryd ag addysg yn y gwaith.

Yn fuan, byddwn yn gofyn i Estyn ymgymryd ag arolwg ar y gwasanaethau cymorth dysgu.

9. Pa effaith y mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ei chael ar golegau addysg bellach?

Mae gan golegau addysg bellach ran allweddol i'w chwarae mewn sicrhau bod y Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Mesur yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae colegau ar hyd a lled Cymru'n cydweithredu ag ysgolion er mwyn cynnig darpariaeth alwedigaethol o safon uchel ar gyfer disgyblion CA4. Mae hyn yn golygu eu bod wedi gorfod addasu i allu derbyn ieuencid 14 a 15 oed yn eu lleoliadau. Mae rhai darlithwyr coleg yn dysgu yn yr ysgolion eu hunain, sy'n golygu bod y dysgwyr yn cael arbed teithio. Rydym yn disgwyl gweld twf parhaus yn y cydweithio rhwng ysgolion a cholegau wrth i ni ymgorffori'r model gweithio rhanbarthol ar hyd a lled Cymru.

Er hynny, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio mwy o'n hymdrechion ar sicrhau bod pobl ifanc yn cael dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-16. Rydym ni'n falch o allu dweud bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi galluogi Llywodraeth Cymru i gynyddu ei hymrwymiad i'r cyfnod addysgu ôl-16, er mwyn galluogi i golegau addysg bellach yn arbennig ddatblygu llwybrau cynnydd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Roedd nifer yr Hyrwyddwyr Dwyieithog mewn colegau wedi cynyddu o bedwar i wyth ym mis Ebrill 2011 ac mae pedwar coleg newydd eisoes wedi dechrau gweithredu strategaethau, er mwyn creu sylfeini cadarnach ar gyfer y datblygiadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr ôl-16.

Eitem 3

CYP(4)-03-12 (Papur 2)

Papur tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Dyddiad: 26 Ionawr 2012

Teitl: Dechrau'n Deg

Diben

Darparu trosolwg o'r rhaglen Dechrau'n Deg i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Mae'r papur yn cynnwys adrannau ar:

- Ddarpariaeth;
- Arian;
- Trefniadau targedu;
- Cynllunio ar gyfer ehangu; a
- Gwerthuso.

1. Cyflwyniad

Rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw Dechrau'n Deg, ac mae'n darparu llwybr tuag at wella cyfleoedd bywyd plant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n darparu cyfres "gyffredinol" o hawliau y gall yr holl blant a'u teuluoedd mewn ardaloedd o amddifadedd fanteisio arnynt heb brawf modd neu stigma cysylltiedig. Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos y gall ymyrraeth ddwys yn y blynyddoedd cynnar wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganlyniadau.

2. Ddarpariaeth

Ehangu Dechrau'n Deg

Ehangu Dechrau'n Deg yw un o brif ymrwymadau maniffesto 'Pump am Ddyfodol Tecach' sydd i'w gyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r ymrwymiad yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n:

Dyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg i 36,000.

Caiff y gwaith o ehangu'r rhaglen ei gyflawni dros sawl blwyddyn er mwyn i ni sefydlu'r seilwaith angenrheidiol, gan gynnwys recriwtio a hyfforddi ymwelwyr iechyd, gweithwyr gofal plant a staff ychwanegol i ddarparu rhaglenni rhianta. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ddatblygu seilwaith cyfalaf, yn enwedig lleoliadau gofal plant, i gyflwyno'r rhaglen yn ei hardaloedd targed newydd.

Sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth wladol cyn ehangu

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei darparu'n gyson ledled

Cymru. Mae nifer o awdurdodau eisoes yn llwyddo i sicrhau cysondeb wrth ddarparu'r rhaglen yn unol â'r canllawiau. Fodd bynnag, fel y nodir yn Adroddiad Interim y Gwerthusiad ym mis Hydref 2010, mae yna wahaniaethau'n bodoli o hyd yn y ffordd mae rhai awdurdodau'n darparu'r hawliau.

Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu rhai awdurdodau lleol o ran darparu'r rhaglen yn unol â'r canllawiau. Mae swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol unigol ac yn darparu cymorth a chynghor ar ddatrys y materion hynny sy'n effeithio ar allu awdurdodau lleol i sicrhau cysondeb darpariaeth cyn ehangu. Bydd hyn yn hollbwysig i sicrhau dull cyson o ddarparu hawliau craidd ledled Cymru. Dylid nodi bod y gwahaniaethau a nodir uchod yn cyfeirio at yr achosion hynny lle nad yw'r canllawiau'n cael eu dilyn – er enghraifft, lle mae'r ddarpariaeth gofal plant yn gyfyngedig – yn hytrach na'r achosion hynny lle mae'r canllawiau'n caniatáu disgresiwn lleol i deilwra gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion penodol mewn cymunedau.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r Gwerthusiad Cenedlaethol, rydym yn ymwybodol bod rhai awdurdodau'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â rhai o'r grwpiau mwy anodd eu cyrraedd, gan gynnwys grwpiau sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y gallant ddiwallu anghenion amrywiol yr holl unigolion a chymunedau a gefnogir gan Dechrau'n Deg. Bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darparu cymorth sy'n diwallu anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn rhan annatod o'r rhaglen.

3. Arian

Cyn 2012/13, mae arian Dechrau'n Deg yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol gan ddefnyddio Fformiwla Asesu Gwariant Safonol Gwasanaethau Cymdeithasol Personol Plant, sy'n seiliedig ar bob math o ddangosyddion o'r grŵp oedran 0-18. Er bod y dull hwn o ddsbarthu'r arian wedi galluogi'r rhaglen i gyrraedd nifer o gymunedau difreintiedig ym mhob awdurdod lleol, mae'r data a ddefnyddir i lywio'r dull hwn bellach wedi dyddio. Mae hefyd yn seiliedig ar blant 0-18 oed, nad yw'n cyd-fynd yn dda ag ystod oedran y plant sy'n gymwys i ddefnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg. Er y bydd y ddarpariaeth gyfredol yn parhau i gael ei hariannu fel hyn, er mwyn lleihau anghysondeb yn yr ardaloedd targed cyfredol, diwygiwyd y ffordd o ddyrannu arian i awdurdodau lleol i ehangu'r rhaglen. Bydd arian ar gyfer ehangu'r rhaglen yn deillio o'r amcangyfrif o blant 0-3 oed sy'n byw mewn cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau incwm mewn ardaloedd awdurdod lleol. Mae nifer o fanteision i'r dull diwygiedig hwn:

- mae'n ddangosydd procsi ar gyfer tlodi;
- mae'n ddangosydd ar gyfer diweithdra ac yn ddangosydd procsi ar gyfer plant sy'n byw mewn cartrefi gyda rhieni sydd â sgiliau sylfaenol gwael; mae'r ddau beth hyn yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau plant;
- mae'n adlewyrchu lefelau absoliwt plant 0-3 oed sy'n byw mewn cartrefi prin o incwm ledled Cymru;

- mae'n defnyddio data o grŵp oedran targed Dechrau'n Deg: teuluoedd â phlant 0-3 oed

Mae cyllideb Dechrau'n Deg ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf fel a ganlyn:

Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Refeniw Dechrau'n Deg	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
	£40.494 miliwn	£46.494 miliwn	£62.994 miliwn	£72.994 miliwn

Mae dyraniadau dangosol Awdurdodau Lleol yn atodiad A.

Ni ellir ehangu Dechrau'n Deg trwy ddefnyddio refeniw yn unig. Mae yna ryngddibyniaeth gref yn y rhaglen rhwng buddsoddiad cyfalaf a gwariant refeniw; nid yw'n bosibl darparu'r gwasanaethau, a ariennir gan y grant refeniw, oni bai bod y seilwaith cyfalaf angenrheidiol ar waith. Bydd cyfanswm o £6 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael dros y ddwy flynedd ariannol nesaf sef 2012-13 a 2013-14. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau i ehangu seilwaith cyfalaf Dechrau'n Deg. Bydd y pwyslais ar ddefnyddio adnoddau mewn ffordd greadigol, sicrhau effeithlonrwydd a defnyddio seilwaith cyfredol y sector preifat, y trydydd sector ac awdurdodau lleol.

4. Trefniadau targedu

Ym mis Rhagfyr 2011, cafodd awdurdodau lleol wybod eu dyraniadau ar gyfer 2013-15, eu dyraniadau dangosol ar gyfer 2013-15, niferoedd cap targed¹ a rhestr o'u hardaloedd cynnyrch ehangach haen is a oedd yn cynnwys amcangyfrifon manwl o nifer y plant 0-3 oed a nifer y plant 0-3 oed sy'n byw mewn cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau incwm yr awdurdod. Mae'r data hwn yn darparu sail eang i awdurdodau lleol ddechrau nodi eu hardaloedd targed newydd ar gyfer ehangu'r rhaglen. Yn yr LSOAs hyn, mae'n anochel y bydd yna gyfran o blant 0-3 oed nad ydynt yn byw mewn cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau incwm ac eraill nad ydynt angen cymorth Dechrau'n Deg. Bydd y rhaglen yn parhau i fod yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol a bydd hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth leol i ddiffinio eu hardaloedd targed, ar grynodiadau o blant sy'n byw mewn cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau incwm, i sicrhau bod y rhaglen yn cyrraedd y rheini sydd fwyaf angen cymorth.

¹ Ystyr nifer cap yw nifer y plant y disgwylir i awdurdod lleol eu cefnogi trwy'r arian sydd ar gael iddo. Defnyddir y niferoedd hyn i sicrhau dwysedd y rhaglen fel nad yw gwasanaethau'n cael eu gwanhau.

Allgymorth

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cyrraedd y rheini sydd fwyaf angen cymorth, fel rhan o'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg, disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio gwaith allgymorth i nodi'r teuluoedd hynny nad ydynt yn byw o fewn ardaloedd targed, ond a fyddai'n elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg. Fel hyn, bydd y rhaglen estynedig yn fwy hyblyg ac yn gallu ymateb yn well i anghenion teuluoedd heb gartref parhaol a'r rheini mewn ardaloedd gwledig. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf – fel treial lle defnyddir hyblygrwydd lleol – bydd y gwaith allgymorth hwn yn derbyn cymorth ariannol sy'n cyfateb i 2.5% o ddyraniad refeniw awdurdod lleol, gyda theuluoedd yn cael eu hatgyfeirio trwy fecanweithiau atgyfeirio priodol fel y Fframwaith Asesu Cyffredin (CAF) neu Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF). Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol dros y misoedd nesaf i ddatblygu'r rhan hon o'r rhaglen ymhellach.

5. Cynllunio ar gyfer ehangu

Cafodd awdurdodau lleol wybod eu dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-15 ym mis Rhagfyr 2011. Cawsant hefyd y data angenrheidiol i ddechrau cynllunio i ehangu Dechrau'n Deg o fewn eu ffiniau. Caiff y cynlluniau amlinellol eu cyflwyno ar 31 Ionawr 2012 a byddant yn rhoi rhyw syniad o'r hyn y gellir ei gyflawni yn ystod dwy flynedd gyntaf yr ehangu. Dyma'r dyddiadau allweddol yn y broses gynllunio ar hyn o bryd:

31 Ionawr 2012	Awdurdodau lleol i gyflwyno cynllun refeniw manwl ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 a chynllun cyfalaf amlinellol ar gyfer 2012-15
Mawrth 2012	Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg fel sail i gynlluniau ar gyfer 2013 ymlaen
31 Mai 2012	Awdurdodau lleol i gyflwyno cynllun grant refeniw strategol tair blynedd ar gyfer 2012-15 yn seiliedig ar y canllawiau diwygiedig. Bydd y cynllunio ar gyfer 2012/13 yn broses ailadroddus yn bennaf, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid llywodraeth leol i gytuno ar fanylion cynnar ar gyfer ehangu.

Gwaith datblygu'r gweithlu

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg, rhaid sicrhau bod yna weithlu priodol ar gael i ehangu'r gwasanaethau, ac yn enwedig bod digon o ymwelwyr ieuchyd (i gynnal y llwyth achos 1:110) a gweithwyr gofal plant ar gael.

Ymwelwyr Iechyd

Er mwyn darparu gwasanaethau ymwelwyr iechyd ar yr un lefel ag a ddefnyddir ar hyn o bryd (h.y. un ymwelydd iechyd i bob 110 o blant), mae asesiad o ofynion yn nodi y byddai angen 160 o swyddi newydd i gyflawni'r ymrwymiad yn y maniffesto. Ar hyn o bryd, mae tua 570 o ymwelwyr iechyd yn y gwasanaeth cyffredinol, felly mae angen ymgyrch recriwtio a hyfforddi sylweddol i sicrhau nifer yr ymwelwyr iechyd sydd eu hangen ar raglen estynedig Dechrau'n Deg.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y GIG, yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) a darparwyr Addysg uwch i ddatblygu cynllun hyfforddi strategol ar gyfer y gweithlu ymwelwyr iechyd a fydd yn cefnogi gwaith ehangu rhaglen Dechrau'n Deg. Mae ymgyrch recriwtio sylweddol eisoes ar waith i gyflawni nifer yr ymwelwyr iechyd y bydd eu hangen ar raglen estynedig Dechrau'n Deg.

Y gweithlu gofal plant

I sicrhau bod Dechrau'n Deg yn cael ei ehangu'n llwyddiannus, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod y nifer cywir o arweinwyr a gweithwyr gofal plant ar gael ar yr adeg iawn, eu bod o'r safon iawn a bod ganddynt y cymwysterau priodol. Gofynnwyd i awdurdodau lleol gynllunio i ddatblygu eu gweithlu gofal plant yn barod ar gyfer ehangu'r rhaglen. Bydd y dadansoddiad o ddiweddarau'r asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant a gynhelir gan awdurdodau lleol yn helpu i lywio'r broses hon. Bydd hefyd angen ystyried ansawdd y gofal plant, priodoldeb y cymwysterau a faint o hyfforddiant addas sydd ar gael ar lefel genedlaethol.

6. Gwerthuso Dechrau'n Deg

Mae gwerthuso'n allweddol i sicrhau bod ein rhaglenni'n cael effaith ac, yn ddiweddar, cyhoeddais yr adroddiad ar arolwg gwerthuso Ton 1: *'Canfyddiadau arolwg sylfaenol o deuluoedd – mapio anghenion a mesur dylanwad cynnar ymhlith teuluoedd â babanod 7-20 mis oed'* ym mis Rhagfyr 2011.

Mae'r adroddiad wedi darparu gwybodaeth bwysig am anghenion teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r heriau maent yn eu hwynebu, yn ogystal â dylanwad cynnar y rhaglen. Dangosodd yr arolwg y canlynol:

- Mae teuluoedd yn derbyn mwy o gymorth yn sgil rhaglen Dechrau'n Deg;
- Mae teuluoedd mewn ardaloedd dechrau'n Deg yn derbyn lefelau uwch o gymorth ar gyfer gwasanaethau ymwelwyr iechyd, rhaglenni rhianta ac Iaith a Chwarae (LAP) na'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd cymharol;
- Mae rhieni'n teimlo'n fwy cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir iddynt.

- Mae rhieni sydd wedi mynychu grwpiau Dechrau'n Deg penodol yn nodi bod eu hyder fel rhiant wedi gwella, eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwell ynglŷn â sut i ofalu am eu baban a bod ganddynt ddealltwriaeth well o ddatblygiad cyffredinol eu plentyn;
- Mae llawer yn nodi eu bod wedi gweld newidiadau cadarnhaol yn ymddygiad eu plentyn ers dilyn cyrsiau rhianta Dechrau'n Deg.

Mae'n ymddangos bod y ffocws ar wella datblygiad iaith wedi bod yn llwyddiannus ac mae llawer o rieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn y cartref gyda'u plant.

Roedd yr adroddiad yn awgrymu hefyd nad oedd Dechrau'n Deg wedi dangos gwahaniaeth cadarnhaol mewn perthynas â chyfraddau bwydo ar y fron ac imiweiddio a diddyfnu o fewn yr amserlen a argymhellwyd. Fodd bynnag, mae'r amserlenni ar gyfer sicrhau newid mewn ymddygiad rhianta ar lefel teulu a chymuned yn hir yn aml, ac yn sicr yn hirach na'r cyfnod sy'n arwain at yr arolwg o waith maes. O ganlyniad, mae ystod a lefel y newid ymddygiad y gellir ei ddisgwyl gan Dechrau'n Deg adeg cynnal yr arolwg yn gymharol gyfyngedig. Byddaf yn ystyried cynnal gwaith monitro a gwerthuso i olrhain cynnydd ar y dangosyddion hyn a dangosyddion eraill yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad ar yr arolwg yn rhan o'r sail dystiolaeth ehangach ar gyfer Dechrau'n Deg ac yn rhan o werthusiad parhaus y rhaglen. Bwriedir cynnal arolwg Ton 2 yn ystod yr haf 2012, a byddwn yn ceisio ymweld â chymaint â phosibl o deuluoedd Ton 1 pan fydd y plant yn hŷn. Yr adeg hon, bydd y teuluoedd yn cael cyfle i fanteisio ar ystod lawnach o wasanaethau Dechrau'n Deg, ac felly bydd yr arolwg o'r ail don yn darparu asesiad llawnach o effaith.

7. Goblygiadau ar gyfer darparu

Mae swyddogion wedi ystyried canfyddiadau arolwg Ton 1 ac Adroddiad Interim y Gwerthusiad Cenedlaethol ac maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi enghreifftiau o arfer da. Lle bo'n briodol, caiff yr enghreifftiau hyn eu hadlewyrchu yng nghanllawiau diwygiedig y rhaglen. Bydd swyddogion hefyd yn monitro perfformiad awdurdodau lleol yn drylwyr i sicrhau bod gwasanaethau Dechrau'n Deg yn cael eu darparu i'r plant a'r teuluoedd hynny sydd fwyaf angen cymorth.

Yn ogystal â gweithgarwch gwerthuso hydredol, rwyf hefyd wedi cymeradwyo comisiynu adolygiadau o dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu cymorth effeithiol i deuluoedd a gweithgarwch datblygiad iaith cynnar, sy'n elfennau craidd o'r rhaglen Dechrau'n Deg. Defnyddir canfyddiadau'r holl weithgareddau ymchwil a gwerthuso, ynghyd â data monitro mewnol, i lywio canllawiau'r rhaglen ac i gefnogi datblygiad Dechrau'n Deg wrth i ni ehangu'r rhaglen.

8. Integreiddio â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru

Mae cysylltiadau ar waith ar lefel polisi a rhaglen i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Mae aelodaeth bwrdd y rhaglen Dechrau'n Deg yn sicrhau bod rhaglenni blaenllaw - gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a Chymunedau yn Gyntaf – yn cefnogi'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg ac yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyfannol i blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

Gwenda Thomas AC

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

Annex A

SF/GT/0057/12

Tudalen 13

Local Authority	2011-12 Dyraniadau	2012-13 Dyraniadau	2013-14 (Indicative) Dyraniadau	2014-15 (Indicative) Dyraniadau
Ynys Môn	£781,628	£823,477	£1,182,183	£1,391,429
Blaenau Gwent	£1,197,463	£1,257,355	£1,770,717	£2,070,178
Pen-y-bont ar Ogwr	£1,617,297	£1,714,236	£2,545,141	£3,029,835
Caerffili	£2,716,042	£2,857,849	£4,073,334	£4,782,367
Caerdydd	£4,844,853	£5,157,418	£7,836,542	£9,399,365
Sir Gaerfyrddin	£1,949,651	£2,057,978	£2,986,498	£3,528,135
Ceredigion	£613,900	£643,469	£896,915	£1,044,759
Conwy	£1,186,173	£1,247,780	£1,775,843	£2,083,880
Sir Ddinbych	£1,081,613	£1,142,877	£1,668,000	£1,974,321
Sir y Fflint	£1,526,181	£1,608,301	£2,312,189	£2,722,790
Gwynedd	£1,167,996	£1,228,780	£1,749,786	£2,053,707
Merthyr Tudful	£1,082,250	£1,140,358	£1,638,431	£1,928,973
Sir Fynwy	£647,482	£678,423	£943,630	£1,098,335
Castell-nedd Port Talbot	£1,956,858	£2,066,832	£3,009,465	£3,559,334
Casnewydd	£2,402,786	£2,534,233	£3,660,924	£4,318,160
Sir Benfro	£1,368,347	£1,437,844	£2,033,532	£2,381,016
Powys	£992,387	£1,041,851	£1,465,830	£1,713,151
Rhondda Cynon Taf	£3,548,173	£3,736,357	£5,349,359	£6,290,277
Abertawe	£3,066,017	£3,243,155	£4,761,483	£5,647,173
Tor-faen	£1,421,567	£1,492,848	£2,103,824	£2,460,228
Bro Morgannwg	£1,354,446	£1,422,434	£2,005,184	£2,345,122
Wrecsam	£1,520,891	£1,610,146	£2,375,190	£2,821,466
Cyfanswm	£38,044,000	£40,144,001	£58,144,001	£68,644,001

SF/GT/0057/12

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 18 Ionawr 2012**

Amser: **09:00 - 12:16**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_18_01_2012&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Christine Chapman (Cadeirydd)
Angela Burns
Jocelyn Davies
Keith Davies
Suzy Davies
Julie Morgan
Lynne Neagle
Jenny Rathbone
Aled Roberts
Simon Thomas

Tystion:

Tony Leahy, Senta
Bill Peaper, Semtra
Gareth Williams, ConstructionSkills
Sioned Williams, Care and Development
Eifion Evans, Director of Education and Community Service, Ceredigion County Council
Arwyn Thomas, Assistant Director of Education and Community Service, Ceredigion County Council

Staff y Pwyllgor:

Claire Morris (Clerc)
Claire Griffiths (Dirprwy Clerc)
Anne Thomas (Ymchwilydd)

1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Cam i'w gymryd:

Cytunodd Sioned Williams i ddarparu rhagor o wybodaeth am pam fod rhai awdurdodau lleol yn recriwtio gweithwyr cymdeithasol o du allan i'r Deyrnas Unedig pan ei bod yn ymddangos fod colegau yng Nghymru yn hyfforddi niferoedd digonol o weithwyr cymdeithasol.

3. Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: sesiwn dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion ynghylch gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cytunodd yr Aelodau ar y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr ymateb gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i baratoi a chyflwyno adroddiad byr erbyn 20 Ionawr.

6. Yr ymchwiliad i fabwysiadau: dulliau o weithio

6.1 Cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor i benodi cynghorydd arbenigol i gynorthwyo â'r ymchwiliad hwn a gwnaethant gais am bapur erbyn y cyfarfod nesaf.

7. Papurau i'w nodi

7.1 Gwybodaeth ychwanegol am weithrediadau ar lefel yr UE yn erbyn masnachu rhywiol plant (fel y nodwyd yn y cyfarfod ar 1 Rhagfyr 2011) (Saesneg yn unig)

7.2 Gwybodaeth ychwanegol gan Llywodraethwyr Cymru (fel y nodwyd yn y cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2011) (Saesneg yn unig)

7.3 Gwybodaeth ychwanegol gan Colegau Cymru (fel y nodwyd yn y cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2011) (Saesneg yn unig)

7.4 Gwybodaeth gan Sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

CYP(4)-03-12 Papur 3

Ymchwiliad I Fesur Dysgu A Sgiliau (Cymru) (2009)

Tystiolaeth gan Addysg Uwch Cymru



Ynghylch Addysg Uwch Cymru

Mae Addysg Uwch Cymru (AUC) yn cynrychioli diddordebau Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yng Nghymru, ac yn gweithredu fel Cyngor Cenedlaethol Universities UK. Mae Cyngor Llywodraethu AUC yn cynnwys Is-gangellorion pob SAU yng Nghymru. Mae AUC yn gweithredu fel adnodd arbenigol ar y sector Addysg Uwch yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae Addysg Uwch Cymru yn croesawu'r cyfle i gyfrannu i'r ymchwiliad i weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2009). Er bod AUC yn ystyried ei bod yn rhy gynnar yn y broses i ddarparu tystiolaeth galed o'r effaith y mae'r Mesur wedi ei chael ar y sector addysg uwch, gan fod rhy ychydig o bobl ifanc wedi mynd drwy'r system, mae'n ddefnyddiol bod y Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi cael ei dderbyn cyn belled, i ganiatáu i ni ymhelaethu ymhellach ar faterion penodol.

Mae'r ymateb hwn yn cyfeirio at y materion penodol mewn 4 grŵp:

1. Ehangu Mynediad
2. Llwybrau Dilyniant
3. Parch Cydradd
4. Cyngor Annibynnol

1. Ehangu Mynediad

- ***Pa newidiadau y mae'r sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru yn disgwyl eu gweld yn sgil gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau 2009? Er enghraifft, newidiadau i nifer ymgeiswyr a chymwysterau ymgeiswyr i gyrsiau addysg uwch.***

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan HESA ar gymwysterau mynediad yn dangos cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n mynd i addysg uwch gyda chymwysterau galwedigaethol. Gan fod y

ffigurau hyn wedi'u cael cyn y Mesur, nid yw'n bosibl priodoli ei gyflwyniad i'r newidiadau, ond mae'n ddangosydd cadarnhaol, ac nid oes unrhyw reswm pam na ddylai'r cynnydd hwn barhau.

Mae'n bosibl y bydd effaith amrywiol ar nifer y cymwysterau, yn seiliedig ar wahaniaethau mewn ariannu o fewn a rhwng awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag adran cymorth dysgu'r Mesur, yn ogystal ag effaith amrywiol cydlynu a rheoli'r Rhwydweithiau Dysgu 14-19 gan yr awdurdodau hynny. Rhagwelir y bydd cyflwyno'r Mesur yn arwain at ddatblygu Bagloriaeth Cymru ymhellach, gyda llawer o ysgolion yn defnyddio anogwyr wrth ddatblygu sgiliau galwedigaethol myfyrwyr, a phortffolios profiad gwaith.

- ***Sut fydd gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn helpu i ddatblygu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chyfiawnder cymdeithasol ac ehangu mynediad i addysg uwch?***

Yn sgil y Mesur, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd ac empirig bod y dewis ehangach o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd wedi arwain at fwy o bobl ifanc yn aros ymlaen yn yr ysgol neu yn y coleg tan eu bod yn 18/19 mlwydd oed. Mae posibilrwydd y gallai hyn gynyddu nifer y bobl ifanc (yn enwedig y rhai o gefndiroedd anhraddodiadol), fydd yn gwneud cais am gyrsiau addysg uwch. Mae'n gwbl hanfodol bod y y system ffioedd tiwtora newydd yng Nghymru a'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, yn cael ei chyfathrebu'n glir. Os nad yw darpar fyfyrwyr yn deall y cynnig sydd ar gael iddynt, mae perygl y gallai'r system ffioedd newydd weithio yn erbyn yr union grwpiau y mae'r Llywodraeth yn ceisio eu targedu gyda'i pholisïau cyfiawnder cymdeithasol ac ehangu mynediad.

Derbynnir bod gan y darpar fyfyrwyr hynny o ardaloedd cefnog well dealltwriaeth ar y cyfan ynghylch mynediad i brifysgolion a'r gefnogaeth sydd ar gael, ac nad yw'r rhai hynny o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf neu gymdogaethau a theuluoedd sydd heb gymryd llawer o ran o'r blaen mewn addysg uwch, mor wybodus. Mae hyn yn bryder cynyddol. Nid yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y pryderon hyn ar gael eto.

2. Llwybrau Dilyniant

- ***A yw gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) wedi cael unrhyw effaith ar lwybrau dilyniant i addysg uwch?***

Gwelwyd enghreifftiau o newidiadau yn y penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud gan bobl ifanc i barhau i addysg uwch o edrych ar y dystiolaeth yn astudiaethau achos yr Anogwyr Dysgu a gyhoeddwyd yn 2008 gan Lywodraeth Cymru a hefyd, ym mentrau awdurdodau lleol ac ysgolion a cholegau unigol, er enghraifft Caerffili, Merthyr, y Fro, Powys a Chastell-nedd. Nid yw hwn yn batrwm cyson ar gyfer pob rhan o Gymru. Yn sylfaenol, mae angen gwella cyfradd cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 ysgolion, sef 40% ar hyn o bryd, er mwyn cynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i AU.

- ***Sut fydd y dewis ehangach o gyrsiau academaidd a galwedigaethol i bobl ifanc rhwng 14 a 16 oed, o ganlyniad i weithredu'r Mesurau Dysgu a Sgiliau (Cymru), yn effeithio ar bolisiau derbyn sefydliadau addysg uwch Cymru?***

Ceir tystiolaeth o ddewis ehangach drwy'r dewislenni opsiynau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan bob rhwydwaith 14-19, ond nid yw'r sylfaen dystiolaeth yn ymwneud â sut mae'r dewis ehangach hwn wedi cael effaith ar bolisiau ym maes AU ar gael eto. Ceir rhagor o wybodaeth am dderbyniadau isod, sydd wedi'i gysylltu â'r cwestiwn o barch cydradd.

3. Parch Cydradd

- ***A wnaed cynnydd tuag at sicrhau parch cydradd rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academaidd o ran polisiau derbyn i gyrsiau addysg uwch?***

Mae polisi derbyn sefydliad yn tansailio popeth y mae'n ei wneud wrth dderbyn myfyrwyr – o ymholiadau, recriwtio a gwaith allgymorth, i wneud penderfyniadau, trosglwyddo data i UCAS, adeiladu perthnasau, amrywiaeth, cymorth pontio, cofrestru a thu hwnt. Mae'r holl brifysgolion ar draws y DU yn gweithio'n agos gyda'r rhaglen Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyniadau (SPA) i ddatblygu derbyniadau teg i gynnal a gwella rhagoriaeth a phroffesiynoldeb y maes derbyniadau, recriwtio myfyrwyr ac ehangu mynediad. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn defnyddio'r un polisiau derbyn ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ac academaidd, er bod y cyntaf yn tueddu i ddefnyddio cyfweiliadau fel gofyniad ychwanegol i asesu addasrwydd proffesiynol. Wrth i'r meini prawf derbyn ar gyfer cyrsiau ddatblygu, mae llawer o brifysgolion yn ymwybodol bod rhai cymwysterau yn paratoi myfyrwyr yn well ar gyfer astudio ar lefel AU nag eraill. Fodd bynnag, nid rhaniad galwedigaethol/academaidd mo hwn o reidrwydd, ac mae swyddogion derbyn yn monitro cynnwys cwrs a chwricwlwm y cymwysterau 'newydd' o hyd (galwedigaethol ac academaidd). Fel pwynt cyffredinol, bydd llawer yn dibynnu ar ddiffinio'r cyrsiau galwedigaethol ac academaidd sydd yn cael eu hastudio,. Er enghraifft, ydy gradd mewn meddygaeth yn cael ei hystyried yn gwrs galwedigaethol neu academaidd?

Mae gan bob prifysgol yng Nghymru draddodiad cryf o werthuso addasrwydd ymgeiswyr 'yn eu holl agweddau' p'un a yw'r cymwysterau a gyflwynir yn y cais yn alwedigaethol a/neu'n academaidd. Fel hyn, sicrheir parch cydradd rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academaidd. Fel rhan o bolisiau ehangu mynediad, mae prifysgolion yn ceisio darparu cyfleoedd i bawb sy'n gallu manteisio o'r profiad - y pwynt pwysig yw asesu potensial unigolyn i lwyddo ym maes addysg uwch, yn hytrach na'u hasesu'n unig ar y cymhwyster y byddant yn debygol o'i ennill.

- ***A oes llwybrau dilyniant galwedigaethol clir i fyfyrwyr sydd am gael mynediad i addysg uwch ar gyfer rhai o'r cyrsiau AU, neu bob un ohonynt?***

Mae nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dilyniant i astudio ar lefel AB ac AU yn tyfu yng Nghymru. Mae llwybrau'n cynnwys Campws Cyntaf, Cyrsiau Blasu Lefel 4 14-19 ac Estyn Allan - Dysgu fel Teulu. Mae Sefydliad Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd er enghraifft, wedi datblygu strategaeth blasu 14-19 sy'n mapio dilyniant, sydd i fod i gychwyn ym Merthyr a Blaenau Gwent ym mis Ionawr 2012.

4. Cyngor Annibynnol

- ***A oes cyngor annibynnol proffesiynol ar gael i bobl 14 ac 16 oed (a'u rhieni) am lwybrau dilyniant i gyrsiau addysg uwch, yn enwedig i bobl ifanc sy'n bwriadu dewis cyrsiau galwedigaethol?***

Ceir rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd bod gan rieni safbwyntiau arbennig yn ymwneud â'r cwestiwn o gyrsiau galwedigaethol yn erbyn cyrsiau academiaidd. Ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut bydd deddfwriaeth yn unig yn newid canfyddiad cyrsiau galwedigaethol, ond mae'n bosibl y bydd hyn yn newid dros amser.

Fodd bynnag, mae cyngor annibynnol ar gael:

Gwasanaethau Presennol - Mae gan bobl ifanc yng Nghymru hawl i gael cyngor annibynnol gan gynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig. Mae'r rhaglen o wybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol ar yrfaedd yn cyd-fynd â'r sgiliau cynllunio gyrfaoedd sy'n cael eu cyflwyno i bob plentyn ifanc 11-19 mlwydd oed fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, yn unol â'r fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith.

Gwasanaethau'r Dyfodol: Uchelgeisiau'r Dyfodol – Daeth astudiaeth annibynnol ar y gwasanaeth gyrfaoedd yng Nghymru '*Gyrfa Cymru: Adolygiad o safbwynt rhyngwladol*' (Yr Athro A G Watts Mai 2009 Dogfen Ymchwil Rhif: 033/2009) i'r casgliad canlynol: 'Mae'r sylw i faterion yn ymwneud ag ansawdd yn Gyrfau Cymru yn hynod, ac yn gymharol â'r arfer rhyngwladol gorau.' (tudalen 51). Mae astudiaeth yr Athro Watts hefyd yn tynnu sylw at y lefelau uchel o adnoddau a chanlyniadau yng Nghymru, o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. (tudalen 14).

Cyhoeddwyd 'Uchelgeisiau i'r Dyfodol: datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru' (LIC 10-11 11097) fis Tachwedd 2010, i adeiladu ar astudiaeth yr Athro Watts ac i edrych y tu hwnt i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Gyrfau Cymru i'r 'teulu' gyrfaoedd ehangach. Mae'n disgrifio mewn peth dyfnder yr ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd; addysg uwch, addysg bellach, ysgolion, colegau, Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, Canolfan Byd Gwaith, Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau yn ogystal â Gyrfau Cymru - 'teulu' cyfan o ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd. Mae'r adroddiad yn dadansoddi'r berthynas rhyngddynt ac yn ceisio cwmpasu gwasanaeth mwy cydlynol sydd yn rhannu'r un hunaniaeth a chanlyniadau - dinasyddion sy'n gallu gwneud dewisiadau dysgu a gyrfaoedd gwybodus, ac sy'n ymwybodol o'r gwasanaethau sydd wrth law i'w cynorthwyo i gyflawni eu

dewisiadau. Mae'r 60 o argymhellion manwl a nodir yn *Uchelgeisiau i'r Dyfodol* yn llunio sylfaen Cynllun Gweithredu canolig / hirdymor i wireddu'r weledigaeth hon.

Crynodeb

Mae Addysg Uwch Cymru yn croesawu'r Mesur, ac yn edrych ymlaen at elwa o ragor o ddata, er mwyn gallu darparu dadansoddiad sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth yn y dyfodol.

ADDYSG UWCH CYMRU IONAWR 2012